



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau

Egwyddorion Arweiniol  
Llywodraeth Cymru ar Gyfer  
Datblygu Cynlluniau Sychder 2020

Hydref 2017

# Egwyddorion Arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Cynlluniau Sychder Ymgwymerwyr Dŵr ar gyfer 2020

Mae'r egwyddorion arweiniol hyn yn berthnasol i ymgwymerwyr dŵr (y cyfeirir atynt drwy gydol y ddogfen hon fel "ymgwymerwyr") y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'n rhoi crynodeb o bolisi Llywodraeth Cymru, y gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid eu bodloni a swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Llywodraeth, rheoleiddwyr, ymgwymerwyr a'u cwsmeriaid.

## Cynnwys

1. Egwyddorion Arweiniol
2. Fframwaith deddfwriaethol
3. Swyddogaethau a chyfrifoldebau:
  - Ymgwymerwyr
  - Llywodraeth Cymru
  - Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC")
  - Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)
  - Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Natural England
4. Diogelwch gwladol a chyfrinachedd masnachol
5. Sut i ddatblygu cynllun sychder
6. Cyswllt cynnar cyn cyhoeddi cynllun sychder drafft
7. Paratoi cynllun sychder drafft
8. Adolygu a diwygio cynlluniau sychder

## 1. Egwyddorion Arweiniol

Mae cynlluniau sychder yn amlinellu sut y bydd ymgymerydd yn cyflenwi dŵr i'w cwsmeriaid yn ystod cyfnodau pan na fydd llawer o law a'r cyflenwad dŵr yn brin, ac yn sicrhau ar yr un pryd fod eu gweithredoedd yn cael cyn lleied â phosib o effeithiau negyddol (gan gynnwys effaith ar gwsmeriaid, busnesau a'r amgylchedd) yn ystod cyfnod o sychder. Dylent amlinellu'r camau gweithredol byrdymor y bydd ymgymerydd yn eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl sychder. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn diffinio cynllun sychder fel cynllun sy'n dweud sut y bydd yr ymgymerydd dŵr, yn ystod cyfnod o sychder, yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau i gyflenwi cyflenwad digonol o ddŵr iach, gan ddibynnu cyn lleied ag sy'n rhesymol bosib ar orchmynion sychder neu drwyddedau sychder.

Dylai cynlluniau sychder ddangos sut y maent wedi rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau, egwyddorion ac ymrwymadau polisi Llywodraeth Cymru a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru.

Cyhoeddodd CNC Ganllaw Technegol i Gynlluniau Sychder, sef fframwaith i ymgymerydd ei ddilyn wrth ddatblygu a chyflwyno eu cynlluniau sychder. Mae'n amlinellu arfer da wrth ddatblygu cynlluniau o safbwynt dulliau gweithredu, faint o le sydd i fod yn hyblyg yn y cynllun, a'r wybodaeth y dylai'r cynllun ei chynnwys. Dylai'r ymgymerydd ddilyn yr egwyddorion arweiniol, law yn llaw â'r canllaw technegol, a sicrhau bod eu cynlluniau'n ymdrin â'r gofynion a nodir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru'n nodi'n glir y pwys y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar fabwysiadu dull integredig a chynaliadwy o gynnal adnoddau dŵr cydnerth. Mae'n rhaid i gynlluniau sychder amlinellu sut y caiff cyflenwadau dŵr eu cynnal os bydd sychder. Disgwylir i ymgymerydd gynllunio ar gyfer cyfnodau mwy heriol ond credadwy o sychder y tu hwnt i allu'r system gyflenwi gyfredol. I gael rhagor o ganllawiau fel yr amlinellir hwy yng Nghanllaw Technegol CNC argymhellir bod ymgymerydd yn dilyn y prosesau a amlinellir yng nghyhoeddiad UKWIR *Risk Based Planning Methodology* (16/WR/02/11) i ddatblygu sefyllfaoedd o sychder.

Dylai cynlluniau sychder gynnwys asesiadau amgylcheddol a chynlluniau monitro amgylcheddol ar gyfer holl fesurau sychder y cyflenwyr. Mae'n rhaid i'r wybodaeth ar gyfer trwyddedau a gorchmynion sychder sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun sychder fod mor agos â phosib at fod yn barod i gyflwyno'r cais, yn enwedig ar gyfer y safleoedd hynny y nodwyd eu bod yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd neu'r rhai y mae fwyaf tebygol y bydd eu hangen mewn sychder. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllaw technegol CNC.

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru'n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod rhoi pwyslais cryf ar y cwsmer yn ganolog i gyflenwi gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Mae hynny'n gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o anghenion cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â llais cryf o ran cynrychioli'r defnyddwyr.

Dylai ymgymeryddwr fynd ati i feithrin cyswllt â'u cwsmeriaid, Cyngor Defnyddwyr Cymru a CNC drwy gyswllt uniongyrchol ac ymgynghori'n gynnar wrth ddatblygu'r cynllun a chynnal deialog barhaus drwy gydol y broses. Dylent geisio cyfuno'r cyswllt hwn â'r cyswllt ar gyfer yr adolygiad nesaf o brisiau er mwyn helpu i sicrhau cysondeb â chynlluniau busnes. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd gan rai cwsmeriaid farn am lefelau'r gwasanaeth (o safbwynt pa mor aml y ceir cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr).

Gall cyfyngiadau dros dro ar gwsmeriaid drwy osod gwaharddiadau dros dro ar ddefnyddio dŵr (TUBs), a gwaharddiadau ar ddefnydd anhanfodol (NEUBs), fod yn rhan o gyfres o gamau rheoli sychder y gall ymgymeryddwr eu cymryd i leihau'r galw. Mae pa mor aml y gosodir y cyfyngiadau hyn yn cyfateb i lefelau'r gwasanaeth i gwsmeriaid, a dylai ymgymeryddwr drafod eu dewisiadau â'r cwsmeriaid, a dylai'r Grwpiau Her Cwsmeriaid annibynnol graffu ar hynny. Dylai lefelau'r gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio gyd-fynd â Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr y cwmni. Os bydd unrhyw newidiadau neu wahaniaethau yn lefelau'r gwasanaeth dylai'r ymgymeryddwr adolygu a diwygio'i gynlluniau statudol yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod lefel ei wasanaeth yn cyd-fynd â hynny.

Dylai cynlluniau sychder amlinellu sut y bydd yr ymgymeryddwr yn meithrin cyswllt ag ymgymeryddwr bach neu ddeiliaid trwyddedau i gyflenwi dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn eu hardal gyflenwi er mwyn iddynt gydymffurfio ag unrhyw gamau i reoli sychder (e.e. TUBs) y gallent eu rhoi ar waith.

Mae penodiadau newydd ac amrywiadau (NAVs) a wneir o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (A7) yn galluogi Ofwat i ddisodli'r ymgymeryddwr cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth penodedig ag un arall ar gyfer ardal benodol yn ardal trwydded yr ymgymeryddwr penodedig. Mae gan penodiadau newydd ac amrywiadau yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau ag ymgymeryddwr eraill i gynhyrchu cynlluniau sychder.

Lle mae penodiadau newydd ac amrywiadau'n gweithredu o dan gytundeb(au) swmp-gyflenwi gydag ymgymeryddwr arall neu ymgymeryddwr eraill, gall rhai rhannau o'u cynllun fod yn gymesur i adlewyrchu hyn. Dylent gynhyrchu cynlluniau sychder sy'n dangos bod yr holl ofynion statudol wedi'u bodloni, ond gall lefel y manylder yn y cynllun fod yn gymesur â sylfaen y cwsmeriaid a sut y maent yn cael eu cyflenwadau dŵr. Dylent amlinellu sut y bydd y NAV yn meithrin cyswllt â'r cyflenwr i gynnal cyflenwadau dŵr, bwydo i mewn i waith i ddatblygu lefelau gwasanaeth arfaethedig y cyflenwyr ac ystyried data a gwybodaeth rhoddwyr/ymgymerwyr cyfagos wrth baratoi cynlluniau. Dylai penodiadau newydd ac amrywiadau drafod gofynion eu cynllun â CNC yn gynnar yn y broses.

## 2. Fframwaith deddfwriaethol

Amlinellir y gofynion deddfwriaethol ar ymgwymerwyr i baratoi a chynnal cynllun sychder o dan Adran 39B a 39C Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. Mae'r darpariaethau hyn yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ymgwymerwyr eu dilyn wrth ddatblygu eu cynlluniau sychder.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Sychder 2005 yn rhoi rhagor o fanylion am y broses, ac yn arbennig ynghylch:

- ymdrin â sylwadau a'r datganiad ymateb i sylwadau
- grym Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad
- y gofynion o ran cyhoeddi'r cynllun.

Wrth baratoi a chyhoeddi cynllun sychder mae'n rhaid i ymgwymerwyr hefyd ystyried deddfwriaeth gyfredol a pholisïau'r Llywodraeth sy'n cynnwys:

- Cyfarwyddyd Cynlluniau Sychder 2017 ac unrhyw Gyfarwyddyd arall a roddir gan y Llywodraeth
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a36
- Gorchymyn Defnyddio Dŵr (Gwaharddiadau Dros Dro) 2010
- Deddf Dŵr 2014, a28
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed
- Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009
- Rheoliadau'r UE (1143/2014) ar rywogaethau goresgynnol estron (anfredorol) (2015)
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Strategaeth Ddŵr i Gymru (Llywodraeth Cymru 2015)

Sylwer: nid yw hon o reidrwydd yn rhestr gyflawn.

Dylai ymgwymerwyr gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar eu cynllun sychder. Dylai'r rhain hefyd gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (lle y bo hynny'n briodol). Dylid defnyddio casgliadau'r asesiadau amgylcheddol i lywio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i ymgwymerwyr gyflwyno eu cynlluniau sychder i Weinidogion Cymru ac mae'n rhaid i gyflenwyr y mae eu hardal gyflenwi'n cynnwys rhan o Loegr hefyd anfon eu cynlluniau drafft at yr Ysgrifennydd Gwladol pan gyflwynir hwy i Weinidogion Cymru.

Mae'n rhaid i ymgymrwyr sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys yn unol â'u gofynion statudol o dan eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, fel y cytunwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a Safonau'r Gymraeg, fel y'u darperir drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly, dylai ymgymrwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o grynodebau annhechnegol eu cynlluniau sychder.

### **3. Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

#### **3.1 Ymgwymerwyr Dŵr**

Mae'n rhaid i bob ymgwymerwr baratoi a chynnal cynllun sychder a chynnwys eu cwsmeriaid yn y broses. Mae'n rhaid iddynt amlinellu'r camau gweithredol byrdymor y byddant yn eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod o sychder i gyflenwi dŵr i'w cwsmeriaid, a sicrhau ar yr un pryd fod eu gweithredoedd yn cael cyn lleied o effeithiau negyddol â phosib.

Gall ymgwymerwyr a chanddynt drwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth gyflenwi dŵr i gwsmeriaid annomestig mawr gan ddefnyddio rhwydweithiau cyflenwi dŵr cyhoeddus y prif ymgwymerwr dŵr. Nid oes raid i ymgwymerwyr a chanddynt drwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth baratoi eu cynlluniau sychder eu hunain. Er hynny, mae'n rhaid iddynt, o dan delerau amodau eu trwydded arbennig, ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol y mae'r ymgwymerwyr yn gofyn amdani er mwyn llywio eu cynlluniau.

Dylai'r wybodaeth y mae gofyn i ymgwymerwyr ei darparu gyda'u cynllun sychder fod yn gymesur â'u maint, sylfaen eu cwsmeriaid a sut y maent yn cael eu cyflenwadau dŵr. Dylent ystyried data, gwybodaeth a chamau i reoli sychder gan roddwyr/ymgwymerwyr cyfagos wrth baratoi eu cynllun sychder. Dylent drafod gofynion eu cynllun sychder â CNC yn gynnar yn y broses.

I gael gwybod mwy am ymgwymerwyr eraill, ewch i wefan Ofwat:

<http://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/licences/>

#### **3.2 Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi dŵr yng Nghymru ac mae'n darparu'r fframwaith statudol a'r cyfarwyddyd polisi ar gyfer cynlluniau sychder y mae'n rhaid i ymgwymerwyr eu dilyn.

Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi'r egwyddorion arweiniol, yn amlinellu'r hyn sy'n ofynnol mewn cynllun sychder. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun sychder drafft, mae grwpiau â buddiant yn anfon sylwadau at Weinidogion Cymru ac anfonir y sylwadau hynny ymlaen at yr ymgwymerwr priodol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y cynllun sychder drafft a'r datganiad ymateb er mwyn pennu a ddylid cynnal gwrandawriad cyhoeddus neu ymchwiliad a bydd yn gofyn am gyngor gan CNC cyn gwneud penderfyniad.

Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo ymgwymerwyr i wneud newidiadau neu i gyhoeddi cynllun newydd.

### 3.3 Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae i CNC ran bwysig yn y broses o gynllunio ar gyfer sychder ac mae'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch y cynlluniau a gyflwynir gan ymgwymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn clustnodi i CNC ddiben cyffredinol newydd i roi sylw i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd yn darparu cyngor mewn modd a fydd yn cymhwyso'r egwyddorion hyn, sy'n cynnwys canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd, y gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau, cyfranogiad y cyhoedd a chydnerthed ecosystemau.

Mae CNC yn cyhoeddi canllawiau technegol i ymgwymerwyr eu dilyn wrth ddatblygu a chyflwyno eu cynlluniau sychder.

Mae'n ofynnol o dan Adran 39B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i ymgwymerwyr ymgynghori â CNC cyn paratoi eu cynlluniau. Mae CNC yn darparu cyngor i ymgwymerwyr drwy gydol y broses gynllunio i helpu ymgwymerwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau technegol ar gyfer cynlluniau sychder ymgwymerwyr ac egwyddorion arweiniol y llywodraeth.

Pan fydd y cynllun sychder drafft wedi'i gyhoeddi, bydd CNC yn cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch cynnwys y cynllun drafft. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw faterion y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol ac fe'u gosodir yng nghyd-destun safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau dŵr.

Pan fydd y datganiad ymateb wedi'i gyhoeddi, bydd CNC yn rhoi cyngor technegol i Weinidogion Cymru i'w helpu i benderfynu ar y camau nesaf. Mae'n debyg y bydd y dystiolaeth y gofynnir amdani'n cynnwys:

- a yw'r cynllun yn bodloni'r gofynion statudol
- a yw'r ymgwymerwr wedi ymdrin yn briodol â'r sylwadau a ddaeth i law
- a yw'r newidiadau a gynigir i'r cynllun yn y datganiad ymateb yn sylweddol wahanol i'r drafft yr ymgynghorodd yr ymgwymerwr arno ai peidio
- gwelliannau y mae'n cynghori y dylid eu gwneud i'r cynllun.

Pan fydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylai ymgwymerwr gyhoeddi ei gynllun, bydd CNC yn rhoi gwybod a yw'r cynllun sydd i'w gyhoeddi yn bodloni unrhyw Gyfarwyddyd neu ganllawiau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Yna bydd CNC yn rhoi cyngor i'r ymgwymerwr ynghylch gweithredu'r cynllun a pharatoadau ar gyfer cylch nesaf y cynlluniau.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i ymgwymerwr am ragor o wybodaeth, caiff yr ymgwymerwr ofyn am gymorth CNC i ymateb i'r cais hwnnw. Mae'n bosib y gofynnir i CNC roi cyngor i Weinidogion Cymru ar ôl i'r wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno.



### **3.4 Awdurdod Rheoleiddio'r Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)**

Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr. Mae ei swyddogaethau'n cynnwys gosod terfynau prisiau ar ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth. Ei brif ddyletswyddau statudol yw:

- hyrwyddo amcan y defnyddwyr i warchod buddiannau defnyddwyr, lle bynnag y bo hynny'n briodol drwy hybu cystadleuaeth effeithiol
- sicrhau bod ymgwymerwyr a chyflenwyr dŵr trwyddedig yn cyflawni eu gweithgareddau a'u swyddogaethau'n briodol
- sicrhau y gall yr ymgwymerwyr ariannu (yn benodol drwy sicrhau adenillion rhesymol ar eu cyfalaf) gwaith i gyflawni eu swyddogaethau'n briodol; a
- hyrwyddo'r amcan cydnerthedd i sicrhau cydnerthedd hirdymor systemau'r ymgwymerwyr a'u gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Mae'n rhaid i Ofwat gyflawni ei swyddogaethau'n unol â'r Datganiad o flaenoriaethau ac amcanion strategol a dderbynnir ganddo gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â chanllawiau statudol eraill ar faterion penodol megis codi tâl.

Mae rheidrwydd statudol ar ymgwymerwyr i ymgynghori ag Ofwat cyn paratoi eu cynlluniau (y cyfnod cyn ymgynghori). Unwaith y bydd y cynllun drafft wedi'i gyhoeddi, gall Ofwat gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar gynnwys y cynllun drafft.

### **3.5 Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Natural England**

Dylai ymgwymerwyr gysylltu â'r sefydliadau hyn ynghylch unrhyw ran o'u cynlluniau sychder yn Lloegr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Defra ill dau'n ymgynghoreion statudol.

Mae Natural England yn gyfrifol am warchod cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau sy'n dibynnu ar ddŵr, ac yn arbennig felly safleoedd Ewropeaidd, safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Lloegr.

#### **4. Diogelwch gwladol a chyfrinachedd masnachol**

Gall cynlluniau sychder gynnwys gwybodaeth y gellid ei hystyried yn sensitif ar sail diogelwch gwladol.


Wrth gyflwyno cynlluniau i Weinidogion Cymru er mwyn cael cytundeb i gyhoeddi'r cynllun drafft at ddibenion ymgynghori, dylai ymgymerydd gyhoeddi datganiad gan Reolwr Diogelwch yr ymgymerydd, yn tystio bod y cynllun wedi'i adolygu ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth a fyddai'n peryglu buddiannau diogelwch gwladol. Mae'n rhaid i'r datganiad hefyd nodi a yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol. Lle y bo gwybodaeth wedi ei dileu yn y broses olygu, dylai'r ymgymerydd nodi beth yw natur y wybodaeth sydd wedi'i dileu.

Gall Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo ymgymerydd i hepgor o'i gynlluniau unrhyw wybodaeth a fyddai'n groes i fuddiannau diogelwch gwladol neu y gellid ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol. (Adran 37B(10)(a) a (b) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003).

Mae'r canllaw technegol ar gynlluniau sychder sy'n atodol i'r egwyddorion arweiniol yn ymdrin â rhai meysydd sy'n sensitif a bydd angen i ymgymerydd benderfynu a ddylid eu hepgor o fersiwn gyhoeddus y cynllun sychder.

## 5. Sut i ddatblygu cynllun sychder

Ceir yn y diagram isod grynodedb o'r broses statudol ar gyfer datblygu cynllun sychder.



## **6. Cyswllt cynnar cyn cyhoeddi'r cynllun drafft (2017–2018)**

### **6.1 Cyswllt Mewn Modd Blaengar**

Mae meithrin cyswllt mewn modd blaengar yn elfen bwysig o broses paratoi'r cynllun sychder drafft. Cyn ysgrifennu cynllun drafft, dylai ymgwymerwyr gynnal trafodaethau cyn ymgynghori â'r ymgynghoreion statudol isod:

- Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig os yw'r cynllun yn effeithio ar safleoedd neu gwsmeriaid yn Lloegr
- Ofwat
- deiliaid trwyddedau cyflenwi dŵr sy'n cyflenwi dŵr i safleoedd yn eu hardal weithredu drwy system gyflenwi'r ymgwymerwr.

Wrth baratoi'r Aseiad Amgylcheddol Statudol, mae'n rhaid i ymgwymerwyr ymgynghori â CNC a Cadw. Os yw'r cynllun yn debygol o effeithio ar rannau o Loegr, mae'n rhaid i ymgwymerwyr hefyd ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Os yw'r cynllun yn debygol o effeithio ar safle cadwraeth dynodedig, mae'n rhaid i ymgwymerwyr hefyd ymgynghori â CNC a/neu Natural England (fel y bo'n berthnasol) cyn gynted â phosib. Dylai ymgwymerwyr hefyd ystyried a yw eu cynllun yn debygol o effeithio ar unrhyw safleoedd bywyd gwyllt lleol sydd wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol ac ymgynghori â rheolwyr y safleoedd hynny.

Mae safleoedd dynodedig yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (gan gynnwys safleoedd ymgeisiol)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (gan gynnwys ardaloedd posib)
- Safleoedd Ramsar (gan gynnwys safleoedd arfaethedig)
- Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (dylid cysylltu â chynghorau lleol)
- safleoedd bywyd gwyllt lleol (dylid cysylltu â chynghorau lleol neu ymddiriedolaethau bywyd gwyllt)
- Parthau Cadwraeth Morol
- tirweddau gan gynnwys safleoedd Treftadaeth y Byd, Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

### **6.2 Meithrin cyswllt yn gynnar â chwsmeriaid a phartïon eraill â buddiant**

Dylai ymgwymerwyr ymgynghori mor eang â phosib ynghylch paratoi eu cynllun. Dylent feithrin cyswllt yn gynnar â'u cwsmeriaid a phartïon eraill â buddiant a meithrin cyswllt cyn ymgynghori ag ymgynghoreion eraill, er enghraifft:

- unrhyw gyflenwyr dŵr y mae eu system gyflenwi'n effeithio arnynt
- unrhyw ymgwymerwyr y mae ganddynt gytundebau swmp-gyflenwi neu rannu adnoddau â hwy
- ymgwymerwyr cyfagos

- Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill
- grwpiau her cwsmeriaid neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt
- unrhyw grwpiau neu sefydliadau eraill y mae'r cynllun yn debygol o effeithio arnynt (e.e. gweithredwyr pwerdai neu'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd)

Dylai gwaith i feithrin cyswllt â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ynghylch y cynllun sychder gyd-fynd, cyhyd ag y bo modd, â gwaith i feithrin cyswllt ynghylch eu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'u cynllun busnes.

### 6.3 Beth i'w drafod

Dylai ymgymrwyr drafod:

- yr hyn y maent yn bwriadu ei gynnwys yn eu cynllun newydd
- yr hyn y maent yn bwriadu ei wneud yn wahanol i'r cynllun sychder cyfredol
- argymhellion blaenorol gan ymgygoreion statudol
- unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- gwersi a ddysgwyd ganddynt o unrhyw brofiadau diweddar o sychder
- barn cwsmeriaid, ymgygoreion statudol a phartïon eraill â buddiant

Dylai ymgymrwyr ddefnyddio'r cyfnod datblygu cynnar hwn i drafod eu dulliau a'u ffyrdd o weithredu, gyda CNC a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd (fel y bo'n berthnasol). Bydd y drafodaeth hon yn caniatáu deialog strwythuredig rhwng yr ymgymwr a'r rheoleiddwyr, a ddylai leihau'r angen i wneud newidiadau yn nes ymlaen yn y broses.

Dylai ymgymrwyr ymgynghori â CNC a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y mae eu cynllun sychder yn helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a adlewyrchir yn y saith nod llesiant a ddarperir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, oherwydd bydd disgwyl iddynt gynorthwyo sefydliadau eraill i gyflawni eu gofynion statudol o dan y Ddeddf honno. Dylai ymgymrwyr hefyd drafod sut y bydd y cynllun yn helpu i gyflawni eu dyletswyddau penodol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'n rhaid i ymgymrwyr ddechrau'r trafodaethau hyn cyn gynted â phosib er mwyn lleihau'r angen i wneud newidiadau yn nes ymlaen yn y broses. Nid oes cyfyngiad ar ba mor bell ymlaen llaw y cynhelir y trafodaethau hyn. Er hynny, ni fydd CNC yn gwneud penderfyniad terfynol ar unrhyw rannau o ddull gweithredu'r cynllun drafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd bydd angen iddynt asesu'r cynllun yn ei gyfanrwydd a chynnig cyngor diduedd i Lywodraeth Cymru.

Dylai ymgymrwyr geisio barn gychwynol ynghylch cyfyngiadau dros dro ar ddefnyddio dŵr gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, eu cwsmeriaid a grwpiau â buddiant, wrth baratoi eu cynllun drafft. Gallant roi eu barn i'r ymgymrwyr ar y blaenoriaethau, dilyniannu ac eithriadau posib i unrhyw gyfyngiadau. Gallant hefyd roi cyngor ynghylch cyfathrebu mewn cyfnod o sychder ynglŷn â chyfyngiadau, cyfnodau rhybydd a sut y byddai'r cwsmeriaid am i sylwadau gael eu trin. Gallai hyn helpu ymgymrwyr i nodi buddiannau a materion y gallant roi ystyriaeth iddynt wrth baratoi eu cynlluniau drafft at ddibenion ymgynghori'n llawn.

## **7. Paratoi'r cynllun sychder drafft (Parhaus 2017–2019)**

### **7.1 Y Cynllun Drafft**

Dylai'r cynllun drafft ddefnyddio'r adborth a gafwyd drwy feithrin cyswllt â'r rhanddeiliaid. Mae'n rhaid i ymgymerywyr hefyd ddilyn unrhyw Gyfarwyddyd statudol a geir gan Weinidogion Cymru ynghlŷn â chynnwys eu cynllun drafft. Mae'n bosib y cânt ragor o Gyfarwyddyd drwy gydol y broses.

I gyd-fynd â'r cynllun drafft dylid cyhoeddi crynodeb annhechnegol hawdd ei ddarllen sy'n helpu i ddod â'r cynllun drafft a chynlluniau cysylltiedig eraill, megis eu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'u cynllun busnes, at ei gilydd. Byddai hyn yn mynd law yn llaw â dogfen dechnegol fwy manwl y bydd rheoleiddwyr a phartïon â buddiant yn ei hadolygu er mwyn deall sut y maent yn bwriadu rheoli sychder. Gall ymgymerywyr hefyd ddarparu gwybodaeth ategol mewn atodiadau.

Dylai'r cynllun drafft fod mor agos ag y bo modd at y cynllun terfynol, gyda chyn lleied o newidiadau â phosib rhwng y ddau. Er hynny, lle bo angen gwneud newidiadau, dylid eu hesbonio'n glir ac yn llawn yn y datganiad ymateb.

Bydd cysylltiadau rhwng y cynllun sychder a chynlluniau eraill a dylai fod yn gyson â hwy. Mae'n rhaid i ymgymerywyr ddangos cysylltiad â:

- Y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr
- Cynlluniau busnes ac argyfwng
- Cynlluniau sychder Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd (fel y bo'n briodol)
- Cynlluniau sychder ymgymerywyr eraill (fel y bo'n briodol)
- Cynlluniau rheoli basnau afonydd

Tra bo'r ymgymerywyr yn paratoi eu cynlluniau, dylent sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i farn y cwsmeriaid, yn enwedig ynghylch lefelau'r gwasanaeth.

### **7.2 Cyflwyno'r cynllun sychder drafft i Weinidogion Cymru (Mawrth 2019)**

Bydd Gweinidogion Cymru'n pennu'r dyddiad olaf y caiff ymgymerywyr gyflwyno'r cynllun drafft. Os yw'r cynllun hefyd yn effeithio ar safleoedd a/neu gwsmeriaid yn Lloegr, mae'n rhaid i ymgymerywyr ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn ogystal â Gweinidogion Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch cyflwyno copïau electronig o'r cynllun. Os yw hynny'n berthnasol, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cyfarwyddiadau i ymgymerywyr ynghylch anfon copïau electronig o'u cynllun at yr Ysgrifennydd Gwladol drwy safle trosglwyddo diogel.

Pan fydd ymgymerywyr yn cyflwyno'u cynllun drafft i Weinidogion Cymru er mwyn cael cytundeb i'w gyhoeddi at ddibenion ymgynghori dylent sicrhau eu bod yn:

- Cyflwyno datganiad gan eu rheolwr diogelwch, yn tystio bod y cynllun wedi ei adolygu ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth a fyddai'n peryglu buddiannau diogelwch gwladol. Mae'n rhaid i'r datganiad hefyd ddweud a yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol.
- Tynnu sylw at y wybodaeth y maent yn bwriadu ei golygu neu ei dileu yn y fersiwn sydd i'w chyhoeddi, er mwyn i Weinidogion Cymru allu cadarnhau a oes angen cael gwared arni ar sail diogelwch gwladol.

Os bydd ymgymerydd yn credu na ddylid cyhoeddi cynllun drafft am ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, mae'n rhaid iddynt ddweud hynny wrth Weinidogion Cymru pan gyflwynir y cynllun drafft.

### **7.3 Cyhoeddi ac ymgynghori ar y cynllun sychder drafft (Mehefin/Gorffennaf 2019)**

Bydd Gweinidogion Cymru'n dweud wrth yr ymgymerydd pryd i gyhoeddi eu cynllun sychder drafft at ddibenion ymgynghori. Mae'n rhaid iddynt sicrhau ei fod ar gael ar eu gwefan ac ar bapur yn un o'u prif swyddfeydd. Mae'n rhaid i ymgymerydd anfon copiâu o'r cynllun drafft at yr holl ymgynghoreion a restrir yn Rheoliadau Cynlluniau Sychder 2005 ac at bob sefydliad arall sy'n rhan o'r trafodaethau cyn ymgynghori gan gynnwys CNC a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd (fel y bo'n briodol). Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi datganiad gyda'r cynllun drafft sy'n:

- nodi a ydynt wedi hepgor unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol
- disgrifio'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r cynllun drafft i Weinidogion Cymru
- nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i'r sylwadau ddod i law ac i ble y dylid eu hanfon

Fel mater o arfer da dylai ymgymerydd ystyried:

- cynnig esbonio'r cynllun drafft i grwpiau sefydledig, partïon â buddiant y gwyddys amdanynt neu ymgymerydd yn eu hardal
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at yr ymgynghoriad

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain a bydd ymgymerydd yn gweithredu yn ôl eu hamgylchiadau a'r materion y maent yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Bydd gan ymgymerydd 15 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r cynllun drafft (oni nodir yn wahanol mewn Cyfarwyddyd gweinidogol newydd) i ymgynghori ar eu cynllun drafft a llunio datganiad ymateb. Eu cyfrifoldeb nhw fydd penderfynu am ba hyd y cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus. Yn y gorffennol, roedd y cyfnod ymgynghori'n para tua 8 wythnos, ond bydd hyn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

Dylai ymgymerydd ganiatáu digon o amser:

- i'r ymgynghoreion wneud sylwadau ar y cynllun – dylid rhoi mwy o amser i gynlluniau drafft mwy cymhleth
- i lunio datganiad ymateb ar sail y sylwadau a ddaw i law

Mae'n rhaid i ymgymmerwyr ddatgan yn eu hymgyngoriad y dylid anfon pob ymateb at Weinidogion Cymru, yn y cyfeiriad ebost neu bost isod:

Cangen Ddŵr  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ  
[Water@wales.gsi.gov.uk](mailto:Water@wales.gsi.gov.uk)

Bydd Gweinidogion Cymru'n anfon copiâu o unrhyw sylwadau a ddaw i law at yr ymgymmerwyr ac at CNC i'w hadolygu, yn rhinwedd ei swyddogaeth reoleiddio fel cynghorydd technegol i Lywodraeth Cymru.

#### **7.4 Cyhoeddi datganiad ymateb ymhen 15 wythnos ar ôl cyhoeddi'r cynllun drafft (Medi 2019)**

Mae'n rhaid i ymgymmerwyr lunio a chyhoeddi datganiad ymateb ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus (ymhen 15 wythnos ar ôl cyhoeddi eu cynllun drafft oni nodir yn wahanol mewn Cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru). Mae'n rhaid sicrhau bod y datganiad ymateb yn:

- dangos bod yr ymgymmerwyr wedi ystyried y sylwadau a ddaeth i law
- nodi'n glir ac yn llawn unrhyw newidiadau y maent wedi'u gwneud i'r cynllun drafft (gan gynnwys yn sgil y sylwadau a ddaeth i law) a'r rhesymau dros eu gwneud
- dweud os nad ydynt wedi gwneud newidiadau yn sgil sylwadau

Dylai'r ymgymmerwyr benderfynu a yw'r datganiad ymateb ar ei ben ei hun yn galluogi pobl i ddeall yn glir ac yn rhwydd y newidiadau y maent wedi eu gwneud. Os nad ydyw, mae'n bosib y byddant am gyhoeddi cynllun diwygiedig ochr yn ochr ag ef yn amlygu'r newidiadau.

Mae'n rhaid i ymgymmerwyr gyhoeddi datganiad ymateb yn unol â'r Cyfarwyddyd ar gynlluniau sychder a'r rheoliadau, a dweud wrth bawb sydd wedi cyflwyno sylwadau eu bod wedi ei gyhoeddi.

Ar ôl cwblhau'r datganiad ymateb mae'n rhaid i ymgymmerwyr ei anfon at Weinidogion Cymru ynghyd â'u cynllun diwygiedig os ydynt wedi paratoi un, ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd iddynt neu y cynghorwyd iddynt ei hanfon gan CNC. Mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r Gweinidogion am unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn fasnachol gyfrinachol neu sydd wedi ei dileu, neu y maent o'r farn y dylid ei dileu, ar sail diogelwch gwladol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r cynllun diwygiedig (os oes un wedi'i baratoi), y sylwadau a wnaed a'r datganiad ymateb, ynghyd â chyngor technegol gan CNC. Mae'n bosib y bydd angen cynnal gwrandawriad cyhoeddus, ymchwiliad neu archwiliad cyhoeddus os oes materion ynghylch eu cynllun drafft sydd heb eu datrys. Bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu a oes angen cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad ac yn rhoi gwybod i'r ymgymmerwr.



## 7.5 Paratoi a chyhoeddi'r cynllun sychder terfynol (2020)

Mae'n rhaid i ymgymerydd baratoi cynllun sychder terfynol ("cynllun terfynol") a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru a fydd yn rhoi gwybod iddynt beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun ac unrhyw newidiadau (drwy Gyfarwyddyd) y mae angen eu gwneud i'r cynllun yn sgil y sylwadau a ddaeth i law, y datganiad ymateb a chanlyniad unrhyw wrandawiadau neu ymchwiliadau.

Ni chaiff ymgymerydd gyhoeddi eu cynllun terfynol hyd nes y cânt Gyfarwyddyd i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Felly, cyn cyhoeddi eu cynllun terfynol mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn:

- dilyn unrhyw Gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru
- neilltuo digon o amser i wneud y gwiriadau terfynol – bydd hyn yn dibynnu ar ba fath o newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud ac a ydynt wedi cael unrhyw Gyfarwyddyd ysgrifenedig

Mae'r rhaid i ymgymerydd gyhoeddi'r cynllun terfynol ar eu gwefan ac yn unol â rheoliadau cynlluniau sychder 2005. Dylent anfon copïau electronig o'r cynllun terfynol at bawb yr ymgynghorwyd â hwy gan gynnwys CNC. Os yw'r cynllun yn effeithio ar Loegr, dylent anfon copïau at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dylent hefyd sicrhau:

- bod copïau papur ar gael yn eu prif swyddfa
- eu bod yn hysbysebu'r ffaith bod copïau papur ar gael ar eu gwefan
- eu bod yn tynnu sylw unrhyw un arall y mae'n debygol o effeithio arnynt at y cynllun

## 8. Adolygu a diwygio cynlluniau sychder

Dylai ymgymerywyr adolygu eu cynllun sychder bob blwyddyn, p'un a gafwyd sychder ai peidio. Dylent hefyd adolygu eu hasesiadau amgylcheddol a'u cynlluniau monitro amgylcheddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gyfoes ac yn cynnwys unrhyw ddata neu wybodaeth newydd a ddaeth i law ers yr adolygiad diwethaf.

Mae'n rhaid i ymgymerywyr ddiwygio eu cynllun sychder:

- pan fo newid perthnasol i amgylchiadau wedi'i bennu gan yr ymgymerwr neu Weinidogion Cymru
- pan fo profiad yn ystod cyfnod o sychder wedi datgelu bod gwybodaeth anghywir yn eu cynllun
- os cânt gyfarwyddyd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru
- p'un bynnag, heb fod yn fwy na 5 mlynedd ar ôl cyhoeddi eu cynllun blaenorol

Mae'n rhaid i ymgymerywyr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a CNC ynghylch unrhyw newidiadau perthnasol y maent am eu gwneud i'w cynllun. Mewn rhai achosion, os bernir bod y newidiadau'n 'berthnasol', mae'n bosib y bydd yn rhaid iddynt ddiwygio'r cynllun a chynnal ymgynghoriad o'r newydd arno. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi gwybod iddynt beth yw'r broses os oes angen gwneud hyn.

Dylai ymgymerywyr hefyd gynnal ymarferion o bryd i'w gilydd i brofi eu cynllun sychder. Dylent gysylltu â CNC a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch cymryd rhan mewn ymarferion sychder ar y cyd.